

Adroddiad Adran 3

Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol


Ysgol Gynradd Tregatwg

Cwestiwn ymholi:

Pa mor dda mae arweinwyr yr ysgol, staff, dysgwyr a chymuned ehangach yr ysgol yn hyrwyddo ac yn datblygu'r pedwar diben?


Cynnydd

Rydym wedi treulio'r pedair blynedd diwethaf ar ein siwrnai arloesi yn archwilio pam, sut a beth rydym ni'n ei wneud i greu cwricwlwm lle mae'r pedwar diben wrth galon ein gweledigaeth. Yn ddiweddar, rydym wedi defnyddio Ymholiad Gwerthfawrogol, a oedd yn cynnwys yr holl randdeiliaid, i werthuso ein cynnydd.



Wrth fynd i'r afael â'n Hymholiad Gwerthfawrogol ein hunain, ar yr un pryd fe wnaethom gydweithio gyda chwech o ysgolion partner, pob un wedi cyrraedd pwyntiau gwahanol yn eu datblygiad. Tra'n ategu'r broses ymholi ei hun, yn y bôn roedd ein gwaith yn ymwneud â chydweddu hunanwerthuso â gwella'r ysgol fel proses integredig, gan hyrwyddo diwylliant cydweithredol o wella, dysgu a myfyrio proffesiynol parhaus.

Fe wnaethom ddefnyddio'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol fel model syml.



Ein nodau:

- bod yn fyfyrïol, yn agored ac yn onest
- mireinio gweithgareddau hunanwerthuso
- mynd ati i werthuso'r ysgol a'i dysgwyr
- cynnwys y staff, y dysgwyr, y rhieni/gofalwyr, y llywodraethwyr a'r rhanddeiliaid eraill i gyd, a gwrando arnynt
- defnyddio dulliau gwahanol i gasglu tystiolaeth ddibynadwy
- defnyddio data ochr yn ochr â thystiolaeth o lygad y ffynnon
- rhannu arferion effeithiol drwy'r ysgol

Aethom ati i gynnal cyfres o grwpiau ffocws gydag ymholwyr arweiniol o bob ysgol er mwyn deall ein cyd-destunau gwahanol ac adeiladu cydberthnasau cadarnhaol. Dyma oedd cam 'Darganfod' a 'Breuddwydio' yr Ymholiad Gwerthfawrogl, ac fe wnaeth alluogi'r arweinwyr i ganolbwyntio ar yr hyn a oedd yn gweithio'n dda er mwyn deall beth oedd angen digwydd nesaf.

A ninnau'n ysgol arweiniol, aethom ati i fodelu'r broses ymholi ar gyfer ysgolion y clwstwr ynghyd â hwyluso cyfres o weithdai gyda'n gwahanol randdeiliaid yn unol â cham 'Cynllunio' y broses. Yna, bu modd i ysgolion y clwstwr ddefnyddio proses gyffelyb, gan roi dull a oedd wedi'i deilwra iddynt hwy ar waith. Rhan hanfodol yr ymholiad oedd mynd ati fel ysgolion unigol, ac yna ar y cyd, i archwilio 'Tynged' y cylch myfyrio a'n camau nesaf. Mae hyn yn golygu datblygu diwylliant dysgu sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus gyda'r nod o wireddu'r pedwar diben.


Canfyddiadau cychwynnol/argymhellion

Caiff y camau gweithredu eu troi'n ganlyniadau yn ystod y cam 'Tynged' terfynol. Roedd hi'n bwysig hefyd i ni allu ymgorffori meddylfryd Ymholiad Gwerthfawrogol yn ein diwylliant, er mwyn i unrhyw newid fod yn gynaliadwy. Roedd yr holl ymholwyr arweinïol o'r farn mai rhan fwyaf llwyddiannus y prosiect fu canolbwyntio ar eu systemau a'u prosesau hunanwerthuso. Roedd yna ymrwymiad cyffredin i alluogi'r arweinwyr i feithrin diwylliant ymholi sy'n canolbwyntio ar y nod o sicrhau gwelliant a chynwysoldeb. Roedd myfyrio ar y broses yr un mor bwysig â'r canfyddiadau eu hunain.

Canfyddiadau:


- Roedd diffinio'r hyn yr oedd y pedwar diben yn ei olygu i bob un o'r ysgolion, trwy ddatgymalu'r ystyr gyda phob grŵp o randdeiliaid, yn hollbwysig o ran teilwra a phrosesu dealltwriaeth.
- Roedd hi'n bwysig i'r cynnydd gael ei ddeall a'i ymwreiddio ym mhob un o'r pedwar diben, ac i fwyafrif yr ysgolion roedd hyn yn darged ar gyfer camau nesaf y gwaith datblygu. Mewn ambell achos, roeddent wedi cael eu datgymalu a'u nodi ar ffurf datganiadau cynnydd (gweler enghraifft Tregatwg). Unwaith eto, roedd yr ysgolion yn cytuno bod hyn yn neilltuol i'w cyd-destun eu hunain a dealltwriaeth eu dysgwyr.

Cafodd y rhain eu creu a'u mireinio gyda dysgwyr, staff a rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn ategu'r gwaith o ddatblygu iaith y pedwar diben. Ni ddefnyddiwyd dull 'tic yn y blwch' ar eu cyfer, ond maent yn ychwanegu at yr angen am eglurder ynghylch cynnydd.



- Os nad oedd y plant bob amser yn defnyddio union benawdau'r pedwar diben, doedd dim gwahaniaeth – y peth pwysig oedd eu bod yn gallu siarad am ddysgu a rhoi enghreifftiau trwy ddefnyddio profiadau ac iaith gyffredin; er enghraifft 'ymagweddu ysgolion at ddysgu'.
- Roedd yr iaith a ddefnyddid yn y pedwar diben, yn enwedig y cyfieithiad Cymraeg, yn rhy ffurfiol, a dangosodd myfyrdodau'r staff a'r rhieni eu bod yn dymuno i'r iaith gael ei symleiddio. Mewn gweithdai cyfeiriwyd at yr enghreifftiau ymarferol yn aml.
- Un o gryfderau mawr yr ymholiad oedd y defnydd o amrywiaeth o ddulliau gwahanol ar gyfer pob grŵp; er enghraifft, defnyddio lluniau'r plant fel ffordd o'u hannog i fyfyrrio.

Defnyddiodd yr athrawon strategaethau dysgu cydweithredol i gynllunio gweithgareddau priodol er mwyn cael plant o bob oed i fyfyrrio mewn ffordd bwrpasol. Roeddent yn cynllunio'r cwestiynau allweddol gan fynd ati wedyn i ddefnyddio dulliau addysgegol yr ysgol i gynnwys y dysgwyr i gyd, nid rhai dysgwyr dethol yn unig.



Ysgogodd yr Ymholiad Gwerthfawrogiol drafodaeth ynghylch newid cynaliadwy mewn pobl, oherwydd mae a wnelo hyn â'r angen sydd gan bobl i gael eu gwerthfawrogi, bod yn greadigol a gwneud gwahaniaeth.

“Tasg arweinyddiaeth sefydliadol yw cydweddu cryfderau mewn ffyrdd a fydd yn gwneud i wendidau'r system fod yn amherthnasol”, Peter Drucker

O ran deall lle'r oeddynt ac i ble'r oeddynt yn mynd nesaf, roedd yr holl ysgolion o'r farn mai'r elfen hollbwysig yn hyn o beth fu defnyddio dulliau pwrpasol er mwyn galluogi'r holl randdeiliaid i fod yn rhan o'r broses.

Myfyrrio ar gynnwys y clwstwr

Y myfyrdod cyntaf, ac efallai'r myfyrdod pwysicaf un, yw'r ffaith nad yw pob ysgol yn deall yn iawn beth yw hunanwerthuso effeithiol na'r hyn y dylai fod. Roedd hyn yn amlwg mewn sgysiaau a gafwyd am adolygu'r pedwar diben fel digwyddiad blynyddol untro 'tic yn y blwch'.

Dim ond trwy weithio fel clwstwr y bu modd i ni fyfyrrio mewn modd gonest a chytbwys ynghylch ein sefyllfa fel grŵp mewn perthynas â'r Genhadaeth Genedlaethol. Bu mor bwysig

dysgu sut mae ysgolion eraill yn archwilio ac yn ymwreiddio'r pedwar diben ym model eu cwricwlwm, a bu'n galonogol gweld bod pob un o'r ymholwyr arweiniol yn ystyried hyn oll fel siwrnai datblygiad proffesiynol ar gyfer yr ysgol gyfan, yn hytrach nag ateb sydyn.

Y camau nesaf

Mae ein clwstwr yn awyddus i barhau i gydweithio ar waith ymholi fel ffordd o ysgogi hunanwerthuso effeithiol. Y camau nesaf i rai ysgolion fydd cael eu mentora trwy'r broses ymholi, gan gael cymorth a chanllawiau mewn modd mwy strwythuredig. I eraill, y camau nesaf fydd ymestyn y broses ymholi er mwyn cynnwys agweddau eraill ar fywyd yr ysgol a defnyddio cyfres gyffredin o nodau, gan rannu'r canfyddiadau cyffredin a myfyrio arnynt.

Felly, rydym wedi penderfynu mai ein camau nesaf ni fel clwstwr fydd canolbwyntio ar sgiliau hanfodol y cwricwlwm. Yn yr un modd ag yr addysgwn sgiliau a chysyniadau yn y cwricwlwm academiaidd, rhaid i ni hefyd addysgu sgiliau ar gyfer bod yn ddysgwyr annibynnol a chyd-ddibynnol effeithiol. Mewn geiriau eraill, rhaid i ni ystyried 'dysgu annibynnol a chyd-ddibynnol' fel meysydd cynnwys y mae angen eu haddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Pe na bai ein hymholiad wedi canolbwyntio ar berthnasedd y sefyllfa bresennol, gydag arferion a nodweddion dysgwyr wrth ei galon a'i graidd, ni fyddai modd i ni baratoi ar gyfer yr hyn a ddigwydd yn y flwyddyn sydd i ddod.

Ôl nodyn

Roedd hi'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r ysgolion yn deall mai'r pedwar diben sydd, yn y bôn, yn ysgogi gweledigaeth eu hysgolion. Ond yn awr, rhaid canolbwyntio ar ba mor dda y deallir y weledigaeth, ynghyd â chanolbwyntio ar gyfathrebu a deall cynnydd o fewn y pedwar diben. Rhaid i'r camau nesaf fynd ati i ddatblygu cynnydd a sicrhau bod pawb yn deall beth yw'r cerrig milltir o ran datblygiad plant.

Yn gyntaf ac yn bennaf, bu'n rhaid i ni addasu ein dulliau hunanwerthuso ac ymholi er mwyn parhau i ddysgu a gwella yn ystod Covid-19. Un o gryfderau gwirioneddol Tregatwg yw ein bod wedi ymwreiddio diwylliant o ddysgu trwy ymholi, felly rydym wedi gallu parhau i ddefnyddio'r dull hwn gyda'r staff a'r dysgwyr, hyd yn oed o bell.

Mae pwysigrwydd ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu wedi newid ffocws i ni, gan olygu mai ein gweledigaeth yw 'ysgol fel cymuned sy'n dysgu'. Mae'r amgylchiadau digynsail cyfredol wedi tynnu sylw at bŵer y pedwar diben fel gweledigaeth genedlaethol. Ni ddylai fod yn angenrheidiol i ni gael pandemig cyn i ysgolion sylweddoli y dylai iechyd a lles fod yn brif ganolbwynt i ni, neu mai hanfod 'bod yn wybodus yn foesebol' yw deall anghenion pobl eraill a gwneud y dewisiadau cytbwys cywir. Nid ydym erioed o'r blaen wedi bod angen i'r gymuned gyfan ysgwyddo cyfrifoldeb dros alluogi'r dibenion a all arwain at ffyniant pob un ohonom.

Rydym wedi llwyddo i ychwanegu haen arall o eglurder at ein dealltwriaeth o'r pedwar diben trwy weld sut mae ein plant yn dysgu'n fwyaf effeithiol pan gaiff trefn arferol yr ysgol ei thorri. Parodd hyn i'n hymholiad dysgu proffesiynol ganolbwyntio ar arferion a nodweddion dysgu ynghyd â datblygu dealltwriaeth o sut fath o ddysgwyr ydym ni, ond hefyd sut fath o bobl ydym ni. Ymhellach, fe wnaethom ganolbwyntio ar ail-ddehongli system yr ysgol er mwyn ein galluogi i ffynnu mewn modd lle'r oedd lles yn brif ganolbwynt i ni.